# Cenn@d

AWST 2 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 127


## Mannau crefyddol Llŷn ac Eifionydd

**Yn ystod y penwythnos nesaf bydd miloedd o bobl yn heidio i gyfeiriad Llŷn ac Eifionydd ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn yr erthygl hon mae'r hanesydd John Dilwyn Williams yn ein cyflwyno i'r rhai o'r mannau cysygredig o fewn yr ardal, yn gapeli, eglwysi a llecynnau ysbrydol arbennig. Gobeithiwn y bydd hyn o ddiddordeb i'r sawl fydd yn ymweld â'r ardal, gan godi awydd ar bobl i fynd i chwilio am y llecynnau Cristnogol hyn.**

### Olion cynnar

O ddyddiau seintiau cynnar y 5ed, y 6ed a'r 7fed ganrif ymlaen mae Cristnogaeth wedi gadael ei hôl yn amlwg ar Lŷn ac Eifionydd. Yng nghyntedd Oriel Plas Glyn-y-weddw yn Llanbedrog gwelir dau faen Cristnogol cynnar, y naill yn coffáu, mewn Lladin, Iwfenal fab Edern ac yn dyddio o'r chweched ganrif, a'r llall o bosib yn hŷn ac yn dyddio o'r 5ed ganrif. Ar hwnnw coffeir *Vendesetli* ('Un o fywyd gwynfydedig'), ffurf gynnar ar yr enw Gwynhoedl, nawddsant eglwys Llangwnnadl yn ddiweddarach. Cawsent eu darganfod tua dechrau'r 1830au wrth chwalu hen fwthyn ar dir fferm Penprys ym mhlwy Llannor, wedi eu hailddefnyddio i ffurfio ochrau bedd hynafol.



Cerrig bedd cynnar yn eglwys Aberdaron

Hefyd diogelir dwy garreg fedd o ddiwedd y 5ed ganrif neu ddechrau'r 6ed ganrif yn eglwys Aberdaron, wedi dod yn wreiddiol o safle a adwaenid fel Capel Anelog ar dir fferm y Gors ar ochr ddwyreiniol Mynydd Anelog ym mhen draw Llŷn. Mae'r arysgrif Ladin arnynt yn tystio i fodolaeth mynwent cymuned o grefyddwyr. Y gair Cymraeg am gymuned felly oedd clas, ac mae'n debyg mai yn Anelog yr oedd rhagflaenydd y clas a oedd ynghlwm ag eglwys Aberdaron yn ddiweddarach. Coffeir *Veracius* Offeiriad ar y naill garreg a *Senacus* Offeiriad gyda llawer o frodyr ar y llall. Mae'n bosib y byddai Ynys Enlli yn encilfa ar gyfer y clas hwn yn Anelog. Dywed traddodiad mai Cadfan, arweinydd cenhadaeth o fynaich a ddaeth drosodd o Lydaw yng nghanol y chweched ganrif, ddechreuodd y sefydliad mynachaidd ar Enlli a ddaeth yn abaty Awstinaidd yn nechrau'r 13eg ganrif, ac y gwelir ei adfeilion yno o hyd.

### Yr eglwysi cynharaf

Eto yn ôl traddodiad, dau o gyd-genhadon Cadfan oedd Hywyn, nawddsant eglwys Aberdaron, a Maelrhys, nawddsant eglwys y plwyf nesaf, Llanfaelrhys. Yn eglwys Aberdaron yn 1094 y cafodd Gruffudd ap Cynan loches rhag erledigaeth y Normaniaid gan gymuned y clas yno a'i rwyfo ganddynt mewn cwch i Iwerddon.



Eglwys Aberdaron

Mae rhan o eglwys Aberdaron, gan gynnwys y fynedfa, yn dyddio o'r 12fed ganrif.

Yn wreiddiol, adeiladau pren fyddai'r oll o'r 37 o eglwysi plwyf a sefydlwyd yn Llŷn ac Eifionydd. Maes o law cawsent eu hail-adeiladu o garreg ac mae nifer ohonynt yn cynnwys adeiladwaith sy'n dyddio'n ôl i'r Oesoedd Canol.



Eglwys Beddgelert

(parhad ar y dudalen nesaf)


Moliant ar y Maes ... a mwy — Tudalen 3

Y Dwyrain a'r Gorllewin — Tudalen 5

Ffydd a Diwylliant — Tudalen 7

### *Mannau crefyddol Llŷn ac Eifionydd*
*(parhad o dudalen 1)*

Y mae eglwys Beddgelert, ym mhen eithaf Eifionydd, yn cynnwys elfennau o'r hen briordy yno sy'n dyddio o'r 12fed a'r 13eg ganrif. Gwelir eglwysi trawiadol eraill yn Llanengan, Llaniestyn, Llangwnnadl ac Aber-erch. Yno yn y fynwent y mae bedd bardd y Betws Fawr, Robert ap Gwilym Ddu.


Llun gan Eric Jones CC BY-SA 2.0 via Wikimedia Commons

Eglwys Nefyn – Amgueddfa Forwrol Llŷn bellach

Er bod nifer o eglwysi wedi cau erbyn hyn, diogelwyd rhai Ynyscynhaearn, Penmorfa a Phenllech, sydd ar iard fferm Plas-ym-Mhenllech, gan gymdeithas Cyfeillion Eglwysi Di-gyfaill. Mae Carnguwch a Llandygwnning yng ngofal cymdeithasau lleol, ac mae hen eglwys Nefyn wedi ei throi yn Amgueddfa Forwrol Llŷn. Tŷ preifat yw'r eglwys yn Llanfihangel Bachellaeth, y "lle tawela 'ngwlad Llŷn", chwedl Cynan, ond mae'r olygfa oddi yno yn dal i swyno.

### Dyfodiad Protestaniaeth

Rhaid cofio, wrth gwrs, mai pabyddol fyddai'r eglwysi plwyf hyd at yr 16eg ganrif pan sefydlwyd Eglwys Loegr, a'i chadarnhau fel eglwys y wladwriaeth o 1559 ymlaen. Nid pawb oedd yn fodlon derbyn y grefydd Brotestannaidd newydd, fodd bynnag. Er bod Thomas Owen, sgweier Plas Du, Llanarmon, wedi cydymffurfio am gyfnod, gan iddo gael ei ddewis yn siryf Sir Gaernarfon yn 1568–9, erbyn y 1570au, yn dilyn esgymuno'r frenhines Elizabeth gan y Pab, peidiodd â mynychu'r gwasanaethau yn eglwys Llanarmon. Bu cyfres o ymchwiliadau swyddogol a chyhuddwyd ef o fod yn reciwsant ac o roddi lloches i offeiriaid pabyddol a gohebu'n anghyfreithlon â'i frawd yn Brussels. Y brawd hwnnw oedd Hugh Owen (1538–1618), y cynllwynwr pabyddol a weithredai fel ysbïwr yn erbyn y frenhines Elizabeth a'i holynydd, y brenin James. Credir mai ef a roes arweinwyr Brad y Powdwr Gwn yn 1605 mewn cysylltiad â Guy Fawkes.

Y mae'r Plas Du yn dal i sefyll ond nid felly gartref Robert Gwyn, reciwsant ac awdur mwyaf toreithiog oes Elizabeth I. Mab Penyberth, plwyf Llanbedrog, ydoedd a ddaeth yn babydd dan ddylanwad Robert Owen, un arall o frodyr Plas Du, a'i darbwyllodd i ymuno â'r pabyddion alltud eraill yn Douai yn Fflandrys yn 1571. Ef, mae'n debyg, oedd awdur *Y Drych Cristianogawl*, y llyfr Cymraeg cyntaf i'w gyhoeddi yng Nghymru, a hynny yn y dirgel, yn ogof Rhiwledyn ar Drwyn-y-fuwch, ger Llandudno. Ym 1936 chwalwyd ei gartref ym Mhenyberth gan y Weinyddiaeth Awyr wrth baratoi'r safle ar gyfer yr Ysgol Fomio, ond mae'n eironig mai eglwys babyddol oedd nepell o safle'r hen dŷ pan ddaeth gwersyll Penyberth yn gartref i Bwyliaid alltud ar ôl yr Ail Ryfel Byd.

### Y Piwritaniaid a'u holynwyr

Yn yr 17eg ganrif daeth mwy o amlygrwydd i'r Piwritaniaid, sef rhai nad oedd yn credu bod newidiadau'r Diwygiad Protestannaidd wedi mynd yn ddigon pell a bod angen 'puro' mwy ar yr eglwys. Gŵr o Sir Drefaldwyn oedd Jeffrey Parry, swyddog ym myddin Cromwell, a ddaeth i Lŷn gan briodi Margaret Hughes o Lanbedrog ac ymgartrefu yn Rhydolion, plwyf Llangïan. Ganed eu mab yn 1658 a'i enwi yn Love-god Parry. Ohono ef y daeth y teulu Parry a ymsefydlodd ym Madryn yn y 18fed ganrif. Arhosodd yr enw Love yn y teulu am sawl cenhedlaeth.

O'r Piwritaniaid y deilliodd yr Annibynwyr a thrwyddynt hwy y daeth Howel Harries ar ei daith gyntaf i Lŷn yn 1741. Ymwelodd â Phenyberth, cartref David Edwards erbyn hynny, a gyhuddwyd o gynnal cwrdd dirgel yn ei dŷ, yn groes i'r rheolau. Roedd rhaid i unrhyw fan addoli gan yr Anghydffurfwyr gael ei gofrestru a'r Gweinidog ei drwyddedu. Yn ôl yn 1689 y trwyddedwyd Daniel Phillips fel gweinidog ymneilltuol cyntaf Llŷn ac Eifionydd ac enwir tri lle ar gyfer pregethu ynddynt: Lôn Dywyll yn Llangïan, tŷ William Thomas ym Mhwllheli a thŷ Ellis Owen yn Llangybi, sef Ynys Helyg. O'r tai ym Mhwllheli a Llangybi y datblygodd capeli Annibynwyr Pen-lan a Chapel Helyg. Codi capel mewn lleoliad newydd a wnaeth y gynulleidfa yn Lôn Dywyll yn 1769, a dyma Gapel Newydd Nanhoron, y capel Anghydffurfiol hynaf sy'n dal i fodoli yng ngogledd Cymru.


Llun gan Eric Jones CC BY-SA 2.0 via Wikimedia Commons

Capel Nanhoron

Er mai mudiad i ddiwygio'r eglwys o'r tu mewn oedd Methodistiaeth ar y cychwyn, buan y troes y seiadau yn gapeli a chafwyd prydles i godi capel ar dir Tŷ Mawr, Bryncroes, yn 1752. Roedd hwnnw dros y ffordd i'r capel presennol, a godwyd yn 1840. Cofnodir bod pregethu ym Mrynengan, 'Jerusalem Sir Gaernarfon' ym mhlwyf Llangybi yn Eifionydd yn 1755 ond yn 1776 y cafwyd les gan y tirfeddiannwr i godi capel yno.



Capel y Beirdd

Yn y 1780au yr anfonodd y Bedyddwyr genhadaeth i Lŷn ac Eifionydd a daeth Christmas Evans i ofalu am Fedyddwyr Llŷn yn 1789. Ond roedd hi'n 1822 ar un o gapeli enwocaf y Bedyddwyr yn Eifionydd yn cael ei adeiladu, sef Capel y Beirdd. Teitl difenwol oedd hwnnw ar y cychwyn gan fod y ddau fardd, Dewi Wyn o Eifion a Robert ap Gwilym Ddu, yn amlwg gyda'r trafodaethau â'r tirfeddiannwr ynglŷn â chael les ar y tir i godi'r capel.

# Moliant ar y Maes … a mwy

Bob blwyddyn fe fydd y Sioe Fawr yn Llanelwedd yn ddathliad o bob dim sy'n digwydd ym maes amaeth yng Nghymru wrth i dros 150,000 o bobl ymweld â hi dros gyfnod o bedwar diwrnod. Ynghanol hyn i gyd mae Pabell yr Eglwysi, dan nawdd Cytûn, yn dystiolaeth weledol ar y maes, a gwaith amhrisiadwy'r tîm o gaplaniaid sy'n crwydro'r maes o fore tan nos. Yma, mae Aled Davies yn crynhoi ychydig o waith yr eglwysi yn Sioe eleni.

D-132! Dyna ein plot arbennig ni ar faes y Sioe, a dyna'r darn o dir dwi wedi treulio dyddiau'n sefyll arno dros gyfnod y Sioe am dros 30 mlynedd. Yn ystod y cyfnod hwn bu cydweithrediad agos iawn rhwng yr eglwysi a swyddogion y Sioe, a gwerthfawrogiad gan y Gymdeithas o'r hyn sy'n cael ei wneud gennym.

Bob blwyddyn bydd y Sioe yn dechrau'n ffurfiol gyda gwasanaeth yn eglwys Llanfair-ym-Muallt, gyda chaplan y Llywydd yn cael y fraint o draethu. Eleni, tro Sir Forgannwg oedd noddi'r Sioe, a'r cyn-Archesgob Barry Morgan oedd yn pregethu, ar wahoddiad y Llywydd. Braf oedd gweld yr eglwys yn gyfforddus lawn, gan gynnwys holl brif swyddogion y Sioe. Yn dilyn y gwasanaeth, roedd y gynulleidfa wedyn yn gwneud eu ffordd yn ôl i faes y Sioe yn Llanelwedd ar gyfer Moliant y Maes, sef y gymanfa ganu flynyddol, gyda chynulleidfa o tua 1,200 o bobl. Mae hon yn gymanfa ddwyieithog, ac eleni roedd côr meibion o ochr ddwyreiniol y sir a band pres o ochr orllewinol y sir yn arwain y mawl. Braf gweld pobl o bob oed yn y gymanfa bob blwyddyn, a hynny mewn awyrgylch anffurfiol yn y sied ddefaid.

Am 7.30 o'r gloch bore Llun roedd pabell yr eglwysi yn fan cyfarfod i'r tîm o gaplaniaid, er mwyn cynnal cwrdd gweddi boreol cyn cychwyn ar waith y dydd. Diolch am waith diflino'r caplaniaid, sy'n crwydro'r maes o fore tan nos yn sgwrsio a gwrando ar ffermwyr a phwy bynnag sy'n falch o sgwrs. Roeddem ninnau yna fel Cytûn yn agor ein drysau i'r cyhoedd am 8 o'r gloch, gyda phaned a *Welsh cake* i bawb oedd yn troi i mewn atom. Bob dydd am 11 o'r gloch roedd gennym oedfa fer, ac eleni fe'n harweiniwyd dros y pedwar diwrnod gan gadeirydd Cytûn, Jennie Hurd; Prif Weithredwr Cytûn, Siôn Brynach; Andrew Sully, Pennaeth dros dro Cymorth Cristnogol Cymru, a minnau hefyd yn cymryd fy nhro, gyda Delyth yn cyfeilio ar yr allweddellau bob dydd.

O fewn y babell roedd gennym waith plant o fore tan nos, a hynny yng ngofal tîm gwaith plant Esgobaeth Aberhonddu ac Abertawe. Undeb y Mamau oedd yn gofalu am y lluniaeth, ac eleni cafwyd *Welsh cakes* yn y Sioe am y tro cyntaf, gan ddilyn esiampl yr Eisteddfod Genedlaethol. Roedd stondin lyfrau yno, ac arddangosfa gan Gymorth Cristnogol, ARocha ac Embrace the Middle East.

Mae stondin fawr arall nid nepell oddi wrthym bob blwyddyn hefyd, sef Show Jesus, gyda chriw hwyliog o ogledd Gwent yn cynnal y bwrlwm yno, ynghyd â stondin gan y Mudiad Efengylaidd. Gyda'r nos hefyd roedd tîm o Fugeiliaid y Stryd allan yn cyfarfod a chynorthwyo pobl ar y stryd.

Bu'n Sioe lwyddiannus iawn eto eleni, a diolch ein bod ni fel Cristnogion yn cael y cyfle i wasanaethu a thystio yn ei chanol hi. Un peth sy'n wahanol iawn i ni fel stondinwyr yw'r ffaith ein bod yn cael cysgu dros nos ar y maes, yn ein carafán tu cefn i'r stondin. Dros y blynyddoedd rydym wedi creu perthynas dda gyda'n cyd-stondinwyr, y stiwardiaid a'r bobl sy'n llnau'r toiledau ayyb, gyda llawer ohonynt i mewn ac allan o'n stondin yn nôl diodydd a galw heibio am sgwrs. Difyr yw cyfarfod yr un bobl o flwyddyn i flwyddyn a chael cyfle i feithrin perthynas, sydd i raddau'n fath arall o gaplaniaeth dros weithwyr y Sioe.




Esgob Abertawe ac Aberhonddu, John Lomas, yn mwynhau paned tra'n sgwrsio gyda rhai o wirfoddolwyr y stondin




Y caplaniaid yn trafod gwaith y dydd cyn cychwyn allan i grwydro'r maes




Siôn Brynach yn arwain gwasanaeth ar y stondin fore Mercher



Bwrlwm y babell wrth i bobl fwynhau sgwrs a phanad



Y gynulleidfa a'r côr ym 'Moliant y Maes' ar y nos Sul

# Ymateb cryf i fideo treisgar o Manipur

**‘Mae’r India roedden ni’n ei hadnabod yn diflannu’n gyflym’: Esgob yn rhoi ei farn ar fideo o Ogledd-ddwyrain India sydd wedi achosi dicter mawr**



Rhai Cristnogion a effeithiwyd gan y trais wedi derbyn rhoddion i’w helpu



Tŷ Cristnogion wedi’i ddinistrio

Lluniau drwy law Open Doors

Mae Prif Weinidog India wedi addo gweithredu ar ôl i fideo fynd ar led yn dangos dwy ferch Gristnogol a orfodwyd i gerdded yn noeth gan ddynion o lwyth Hindŵaidd cyn yr honnir iddynt gael eu treisio gan gang.

Mae’r erledigaeth grefyddol gyson yn nhalaith Manipur yng Ngogledd-ddwyrain India, sy’n targedu Cristnogion yn bennaf, wedi cynyddu yn ystod y misoedd diwethaf. Ond mae swyddogion y llywodraeth wedi ymddangos yn amharod i wneud unrhyw sylw ynghylch hyn.

Fodd bynnag, mae’r fideo y credir ei fod wedi’i ffilmio ers sawl mis wedi achosi dicter eang gyda Phrif Weinidog India, Narendra Modi, wedi’i orfodi i wneud sylw.

“Mae fy nghalon yn llawn poen, mae’n llawn dicter,” meddai Modi ar ddiwedd y sylwadau arferol y mae’n eu gwneud cyn dechrau pob sesiwn seneddol. “Mae’r digwyddiad o Manipur sydd wedi dod i’r amlwg yn gywilydd ar unrhyw gymdeithas sifil.”

“Bydd y gyfraith yn cymryd ei chamau cryfaf, â’i holl nerth. Ni ellir byth faddau’r hyn a ddigwyddodd i ferched Manipur,” meddai gan annog prif weinidogion pob talaith i gryfhau eu gorfodaeth o’r gyfraith.

Adroddodd Fforwm Arweinwyr y Llwythau Cynhenid fod y treisio hwn wedi digwydd ar ôl i bentref gael ei losgi’n ulw, a bod dau ddyn – un canol oed ac un arall yn ei arddegau – wedi cael eu curo i farwolaeth gan y dorf.

Mae awdurdodau India bellach wedi gwahardd unrhyw un rhag rhannu’r fideo.

Mewn datganiad i’r cylchgrawn *Premier*, dywedodd yr Esgob Joseph D’Souza o Eglwys y Bugail Da, India: “Dyma fideo sy’n rhwygo calon a chydwybod o ddwy ddynes Gristnogol Kuki a gymerwyd drwy rym o orsaf heddlu, eu gorfodi i ymdeithio’n noeth, eu cam-drin yn gorfforol, cyn eu treisio gan gang ac yna eu lladd. Mae’r India roedden ni’n ei hadnabod yn prysur ddiflannu. Arglwydd, helpa ni.”

Yn ddiweddar, ymddiswyddodd R. Vanramchuanga, un o brif wleidyddion plaid lywodraethol y BJP oherwydd methiant ei blaid i gondemnio trais yn erbyn Cristnogion.

Yn ei lythyr ymddiswyddo, dyddiedig 13 Gorffennaf, beirniadodd Mr Vanramchuanga y diffyg dicter a welai ymhlith arweinwyr y BJP ar lefel leol a chenedlaethol yn sgil dinistrio 357 o eglwysi ac adeiladau oedd yn perthyn i sefydliadau Cristnogol yn Manipur gan wrthryfelwyr Meitei. Mynegodd ei gred fod cefnogaeth wleidyddol i’r trais yn erbyn grwpiau crefyddol a lleiafrifoedd ethnig.

**Arglwydd,**

**Gweddïwn ar i ti amddiffyn y rhai sy’n wynebu trais yn Manipur, ac ar draws y byd.**

**Gweddïwn am heddwch, Arglwydd.**

**Yn dy enw sanctaidd,**

**Amen.**

(O erthygl gan Sophie Drew 20.7.23 yn *Premier Christian News* sydd ar gael i’w ddilyn ar y we neu y gellir tanysgrifio i’w cyhoeddiad ‘Christianity’: www.premierchristian.news)

# Galw chwiorydd yn ddisgyblion yn Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon

Calondid mawr i Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon, sydd wedi ei ffurfio’n ddiweddar pan ymunodd dau gapel Presbyteraidd ym Mro Treffynnon, oedd derbyn dwy aelod ifanc i’w plith ddydd Sul, 16 Gorffennaf. Mae Mali ac Ela Closs-Sharp yn ddwy chwaer, gyda Mali yn edrych ymlaen at ddychwelyd i Brifysgol Bangor wedi’r haf ac Ela ar gwrs lefel A yn ysgol Maes Garmon ac yn chwaraewraig criced i dîm merched ieuanc Cymru.

Roedd yr emynau a’r darlleniadau yng ngofal y merched gyda’u mam, Heulwen, wrth yr organ. Fe gafwyd gair o groeso iddyn nhw ar ran yr eglwys gan Geraint Jones a chyflwynwyd y *Beibl i Bobl Ifanc* iddyn nhw.

Rhoddwyd anerchiad wrth fwrdd y cymun gan y Bugail, Huw Powell-Davies, a dynnodd sylw at bwysigrwydd ein perthynas o fewn ein teuluoedd a theulu’r eglwys. Eglurodd fod Duw wedi ein llunio yn ôl cymdeithas berffaith ei lun a’i ddelw i fod yn deulu gyda’n gilydd ac yn deulu yn eglwys ei fab, Iesu Grist. Wrth eu derbyn yn aelodau, cofiwyd bod Iesu ei hun wedi galw dau bâr o frodyr gyntaf i’w ganlyn ef a bod yn ddisgyblion iddo – Andreas a Pedr, ac yna Iago ac Ioan. Roedd gan y pedwar berthynas agos â’u brodyr a chyda’i gilydd fel cyd-weithwyr yn y busnes pysgota, ac fe addawodd Iesu eu gwneud yn bysgotwyr dynion.



Mali ac Ela yn y canol gydag aelodau’r teulu oedd yn bresennol ynghyd â’r Bugail ac ysgrifennydd yr eglwys

Eglwys fechan o 27 aelod yw Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon, ond mae’n edrych ymlaen at gynyddu ei haelodaeth a chyrraedd 30 erbyn yr adeg hon y flwyddyn nesaf.

Dyma englyn a luniwyd gan Norman Closs-Parry i’w ddwy wyres, Mali ac Ela, ar achlysur eu derbyn yn gyflawn aelodau:

Dengys y gwerth sydd i’r perthyn – i fyw  
dyfodol o dderbyn,  
mai’r Duw byw yw Tad pob un:  
rhawd a hyder credadun.

# Y Dwyrain a'r Gorllewin



Auckland, Seland Newydd

Wrth deithio'n ddiweddar o Gymru i ben arall y byd – i wlad y cwmwl hir, gwyn; y ciwi a'r parot; y Maori, y gwynion, pobl yr ynysoedd a'r dwyrain pell ac India; i wlad bryniau folcanig a ffynhonnau poeth – dyma fyfyrio ar y pellter a'r ehangder byd-eang o'r gorllewin i'r dwyrain.

Gwnaeth hynny i mi feddwl am rai adnodau yn yr Ysgrythur sy'n sôn am y dwyrain a'r gorllewin.


'"Oherwydd y mae f'enw yn fawr ymysg y cenhedloedd o'r dwyrain i'r gorllewin, ac ym mhob man offrymir arogldarth ac offrwm pur i'm henw; oherwydd mawr yw f'enw ymysg y cenhedloedd," medd Arglwydd y Lluoedd' (Malachi 1.11); 'O godiad haul hyd ei fachlud bydded enw'r Arglwydd yn foliannus' (Salm 113.3).

Dyma ddwy adnod sy'n dweud y bydd enw'r Arglwydd (Iahwe) yn cael ei fawrhau gan fawl ac addoliad didwyll drwy'r holl genhedloedd. Byd Duw yw hwn, a bydd ganddo ei wir addolwyr drwy'r holl fyd.



Jonathan, John a Helen Treharne

Dwi wedi cael profiad o hyn eisoes yn Seland Newydd: wrth addoli gydag eglwys yn Auckland, wrth gyfarfod a gweddïo gyda brawd o'r enw Jonathan oedd yn rhannu tractiau yn y ddinas ac wrth ddarllen am Tarapipipi Te Waharoa. Pennaeth un o lwythau'r Maori oedd ef; cofleidiodd yr Arglwydd Iesu yn 1838 a bu'n ddylanwadol ym mhenodiad y brenin Maori cyntaf, Potatau Te Wherowhero – fyddai'n cynrychioli'r bobl i gynnal deialog â'r Goron.



Potatau Te Wheroowhero

Ar y dydd hwnnw daw dyfroedd bywiol allan o Jerwsalem, eu hanner yn mynd i fôr y dwyrain a'u hanner i fôr y gorllewin, ac fe ddigwydd hyn haf a gaeaf (Sechareia 14.8).

Dyma broffwydoliaeth o gyfnod yr Efengyl wedi tywalltiad yr Ysbryd Glân ar y Pentecost. Dyma'r dyfroedd bywiol oedd gan Iesu Grist i bobl fel y wraig o Samaria. Dyma'r bywyd tragwyddol sy'n llifo o'r Jerwsalem nefol i eneidiau pobl. Fe ddaw'r Ysbryd sanctaidd ag argyhoeddiad o bechod, ffydd ac ymlyniad wrth Iesu Grist a'i groes, sicrwydd o faddeuant a heddwch â Duw yng Nghrist, a ffrwythau addas i edifeirwch. Bydd yn llifo ym mhob tymor ac ym mhob cyfnod o hanes dyn.

Cyn belled ag y mae'r dwyrain o'r gorllewin y pellhaodd ein pechodau oddi wrthym (Salm 103:12).

Rhan hanfodol o fendith yr Efengyl yw maddeuant. Cefais argraff newydd o'r pellter rhyngof fi a 'mhechod – drwy bwyso ar aberth Iawnol Iesu Grist – wrth deithio'r 27 awr mewn awyren o Lundain i Auckland. Mor hyfryd yw meddwl am y pellter yma, oherwydd rhinwedd gwaed y groes. Mae modd teithio i ben draw'r byd mewn diwrnod, bron, ond does dim modd cyrraedd ein pechodau, a gafodd eu dileu gan waed y groes!


Oherwydd fel y mae'r fellten yn dod o'r dwyrain ac yn goleuo hyd at y gorllewin, felly y bydd dyfodiad Mab y Dyn (Mathew 24:27).

Yma mae Iesu'n proffwydo am ddyddiau anodd cwymp Jerwsalem, a chyfodiad Meseiaid ffals, fydd yn denu pobl i ryw fannau unig. Serch hynny, fe ddaw ei deyrnas Ef yn agored ac yn bwerus o'r dwyrain i'r gorllewin. Gall fod hefyd yn sôn am ei ailddyfodiad, pan ddaw i gasglu ei bobl o bob cwr o'r byd ac i farnu pawb o bob cyfandir ac o bob oes – y byw a'r meirw.

Mae'n gymaint o fendith cofio mai byd Duw yw hwn, ac fe fydd yn teyrnasu ym mywydau ei bobl drwy'r holl fyd drwy Efengyl Iesu Grist, a'i deyrnas yn dod â bendithion lu yn ei sgil, gan gynnwys maddeuant a phellhad digyffwrdd rhyngom ni a'n pechodau. Mae'n hyfryd cofio y bydd tyrfa ddi-rif o bob llwyth, gwlad, iaith a chenedl yn moli Duw a'r Oen mewn nef newydd a daear newydd cyn hir.

*John Treharne*

**ADNABOD**




Cyfres o astudiaethau gan y Parch. Meirion Morris ar gyfer grŵp neu unigolion; gellir eu defnyddio ochr yn ochr â'r gyfrol *Dehongli Bywyd Abraham* gan Gareth Lloyd Jones.

## 35 Dau dad, a dau unig fab (Rhan 2)

**Darllen: Genesis 22:1–24**
**(Gweler hefyd *Dehongli Bywyd Abraham*, gan Gareth Lloyd Jones, t. 151)**

Wedi edrych ar yr hanes yr wythnos diwethaf, rwyf am geisio gwneud deubeth y tro hwn: ystyried ein deall Beiblaidd o brofion ffydd ac yna edrych ar ganlyniadau hynny. Mae Iago yn lle da i grynhoi ein dealltwriaeth o'r maes:

'Fy nghyfeillion, cyfrifwch hi'n llawenydd pur pan syrthiwch i amrywiol brofedigaethau, gan wybod fod y prawf ar eich ffydd yn magu dyfalbarhad. A gadewch i ddyfalbarhad gyflawni ei waith, er mwyn ichwi fod yn berffaith a chyflawn, heb fod yn ddiffygiol mewn dim. ... Gwyn ei fyd y sawl sy'n dal ei dir mewn temtasiwn, oherwydd ar ôl iddo fynd trwy'r prawf fe gaiff, yn goron, y bywyd a addawodd yr Arglwydd i'r rhai sydd yn ei garu ef.' (Iago 1:2–4,12)

O ran bwriad Iago, mae'r adnodau'n ein hatgoffa bod y rhai sy'n dymuno ac yn rhoi pris ar aeddfedrwydd ysbrydol yn rhoi pris ar werth dyfalbarhad. Er nad yw amryw o'n profiadau'n dda ynddynt eu hunain, eto mae'n bosibl y bydd canlyniadau da, ac yn wir ganlyniadau rhyfeddol, yn deillio oddi wrthynt. Yn adnod 12 mae Iago yn cyfeirio at ddau beth: dyfalbarhad a choron bywyd. Os nad yw'r goron yn fawr o ddiddordeb i rywun, wel, does fawr o gymhelliad i ddyfalbarhau. Ond os yw ein bryd ar glywed y geiriau 'da, was da a ffyddlon', a chael mynedfa i lawenydd yr Arglwydd am byth, ffolineb o'r mwyaf fyddai peidio â byw ein bywyd gyda golwg ar hynny.

Byddaf yn aml yn rhyfeddu at daith William Wilberforce a'r 'Clapham Sect' yn yr ymgyrch i ddwyn y farchnad gaethwasiaeth i ben. O 1785 hyd 1807 fe gyflwynodd fesur yn y senedd 11 o weithiau, a bob tro byddai'r mesur yn cael ei wrthod. Ond yn 1807 cafwyd pleidlais o 283 o blaid a 16 yn erbyn. Yna, gan mai dim ond gwneud y farchnad yn anghyfreithlon yr oedd y mesur, roedd yn rhaid parhau i sicrhau bod dal caethweision yn anghyfreithlon. Bu wrthi am 26 mlynedd yn sicrhau hynny, ac fe basiwyd y mesur yn 1833, dridiau cyn iddo farw.

Rwy'n nodi hyn yn dilyn darllen dyfyniad o eiddo ffrind iddo, James Stephen, yn dilyn marwolaeth Wilberforce: 'His presence was as fatal to dullness as to immorality. His mirth was as irresistible as the first laughter of childhood.' Yn ei lyfr, *A Practical View of Christianity*, mae Wilberforce yn nodi, 'The path of virtue is that also of real interest and of solid enjoyment … when all around him is dark and stormy, he can lift up an eye to Heaven, radiant with hope and glistening with gratitude'. Roedd wedi dysgu wynebu treialon gan eu cyfrif 'yn llawenydd pur', a golwg ar y 'goron a addawodd yr Arglwydd i'r rhai sy'n ei garu' yn sicrhau ei ddyfalbarhad.

Nid Iago yn unig sy'n mynd i'r afael â chwestiwn profion yn y bywyd Cristnogol. Yn 1 Pedr 1 mae Pedr yn cyfeirio at y blinderau yng nghyd-destun etifeddiaeth sicr y Cristion gan ddisgrifio ein profedigaethau fel moddion bendith: 'Y mae hyn wedi digwydd er mwyn i ddilysrwydd eich ffydd chwi, sy'n fwy gwerthfawr na'r aur sy'n darfod — ac y mae hwnnw'n cael ei brofi trwy dân — gael ei amlygu er mawl a gogoniant ac anrhydedd pan ddatguddir Iesu Grist' (1 Pedr 1:7). Drwy'r cyfan, i'r rhai sy'n ymddiried, fel Abraham, fe ddywed Paul, 'Y mae Duw'n ffyddlon, ac ni fydd ef yn gadael ichwi gael eich profi y tu hwnt i'ch gallu; yn wir, gyda'r prawf, fe rydd ef ddihangfa hefyd, a'ch galluogi i ymgynnal dano.' (1 Corinthiaid 10:13)

Daw hyn â ni yn daclus yn ôl at yr hanes yn Genesis 22. Sylwch ar yr hyn y mae Abraham yn galw'r lle yn adnod 14, Jehofajireh, 'yr Arglwydd sy'n darparu'. Mi fyddai wedi medru cyfeirio at y lle fel man y waredigaeth, man y prawf. I'r gwrthwyneb, dyma lle y sylweddolodd fod yr hyn a ddywedodd wrth Isaac, 'Duw ei hun fydd yn darparu oen y poethoffrwm, fy mab' yn cael ei wireddu i raddau wrth weld yr hwrdd yn y llwyn, ond byddai darpariaeth gyflawn ar y mynydd hwn ymhen hir a hwyr. Dyma'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn Rhufeiniaid 8:32, 'Nid arbedodd Duw ei Fab ei hun, ond ei draddodi i farwolaeth trosom ni oll'. Hon oedd y ddarpariaeth yr oedd Ioan yn tystio iddi ar ddechrau gweinidogaeth Iesu, 'Trannoeth gwelodd Iesu'n dod tuag ato, a dywedodd, "Dyma Oen Duw, sy'n cymryd ymaith bechod y byd!"' (Ioan 1:29)

Wrth inni edrych yn ôl, heibio Calfaria, nid peth amhriodol yw meddwl bod Abraham wedi meddwl: does dim raid i mi roi fy mab er mwyn Duw; mae Duw yn rhoi ei Fab er fy mwyn i.

Canlyniad yr ymddiriedaeth a arweiniodd at yr ufudd-dod hwn oedd fod Abraham yn derbyn cadarnhad pellach o'r addewid: 'bendithiaf di yn fawr, ac amlhau dy ddisgynyddion yn ddirfawr, fel sêr y nefoedd ac fel y tywod ar lan y môr. Bydd dy ddisgynyddion yn meddiannu pyrth eu gelynion, a thrwyddynt bendithir holl genhedloedd y ddaear, am iti ufuddhau i'm llais.' (adn. 17) Er yn cydnabod fod sicrwydd fydd yn rhywbeth sy'n ddieithr i lawer, eto, fe ddylai ein hyder yn y gwaith gorffenedig drosom a'r arwyddion gweladwy o'r ffydd honno mewn bywyd o ufudd-dod ddod â'r Cristion i fan lle mae'n edrych yn hyderus at y 'goron a addawodd yr Arglwydd'.

1. Ystyriwch y pennill hwn o un o emynau Gomer ochr yn ochr ag 1 Corinthiaid 10:13:

   Yn y cyfyngderau mwyaf
   pwysa f'enaid ar dy Dduw,
   disgwyl wrth Jehofa Jireh,
   ceidwad grasol dynol ryw ;
   fe a'th geidw
   rhag dy ofnau fawr a mân.

2. Rydym wedi meddwl am lawenydd Wilberforce wrth iddo wynebu gwrthwynebiad ac anawsterau am flynyddoedd. Sut fyddwch chi'n diogelu eich bod yn ei chyfrif 'hi'n llawenydd pur pan syrthiwch i amrywiol brofedigaethau, gan wybod fod y prawf ar eich ffydd yn magu dyfalbarhad'?

3. Er nad ystyriwyd hyn yn yr astudiaeth, i ba raddau mae parodrwydd Isaac i orwedd ar yr allor yn gysgod o'r hyn mae Eseia yn 53:7 yn ei broffwydo am Iesu: 'arweiniwyd ef fel oen i'r lladdfa, ac fel y bydd dafad yn ddistaw yn llaw'r cneifiwr, felly nid agorai yntau ei enau'?

S4C

**Sul, 6 Awst – Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2023**
*Oedfa'r Bore am 10 yb*
Pat Jones sy'n arwain yr emynau o Bafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd
*Y Gymanfa Ganu am 8 yh*
Cymanfa Ganu Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn fyw o faes y Brifwyl, Boduan

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 6 Awst, am 7:30yb a 12yp**
Emynau ein prifeirdd: rhaglen 3
R. Alun Evans yn bwrw golwg ar ragor o emynau gan rai o'n prifeirdd

**Sul, 6 Awst, am 1yp**
Oedfa agoriadol Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023

# *Ffydd a Diwylliant*

Mae plant fel cathod: maen nhw'n dod â phob math o bethau annisgwyl i'r tŷ. Fûm i erioed yn Glastonbury, ond eleni daeth yr ŵyl ata i.

Wyddwn i ddim am Lewis Capaldi tan yn ddiweddar. Ond fe lusgodd y plant acw fo i'r tŷ, ac mae'n rhaid dweud mod i bellach yn ffan o'r Albanwr di-ffrils. Dwi'n hoff o'i ganeuon; hen ramantydd fûm i erioed. Ac ynghanol llu o ddynion ifanc sy'n hoff o dynnu eu crysau i ddangos eu cyhyrau a'u lliw haul mae'n braf gweld dyn ifanc boliog, gwelw, sydd yr un mor falch o'i gorff. Un da ydy Lewis!

Ond yn ddiweddar fe gafodd o ddiagnosis o gyflwr Tourettes. Cyflwr niwrolegol sy'n golygu bod y person yn datblygu 'tics', synau neu symudiadau nad oes ganddyn nhw unrhyw reolaeth drostyn nhw. Mae hyn yn broblem aruthrol i unrhyw un, ond yn arbennig felly i berfformiwr.

Mae llawer yn cael diagnosis yn ifanc, ond gall ddatblygu, neu waethygu, mewn oedolion yn ogystal, yn enwedig os ydyn nhw dan bwysau.

Roedd Lewis wedi bod yn teithio a recordio'n galed ers blynyddoedd ac wedi cymryd hoe cyn Glastonbury. Ond roedd o'n teimlo bod angen iddo wneud ymdrech i fod yn yr ŵyl er mwyn ei ddilynwyr ffyddlon.

Ond fe drodd y perfformiad yn hunllef, yn ôl rhai o'r penawdau, beth bynnag.

Cafodd Lewis bwl go ddrwg o'i Tourettes ar y llwyfan o flaen degau o filoedd o'i ddilynwyr. Methodd ganu a doedd ganddo ddim rheolaeth dros ei symudiadau.

'Capaldi yn stryglo i berfformio' oedd rhai o'r penawdau ar y cyfryngau cymdeithasol.

Oedd, roedd o yn stryglo; roedd o'n ymddiheuro i'w gynulleidfa, yn poeni eu bod nhw wedi talu'n ddrud i ddod i'w weld o, ac yntau'n methu perfformio.

Ond ar y llaw arall, roedd o'n un o'r perfformiadau mwyaf gwefreiddiol. Nid perfformiad Capaldi yn unig, ond ei berfformiad ar y cyd â'r dorf. Gyda'i gilydd roedden nhw'n anhygoel.

Wrth iddo fo fethu, fe wnaethon nhw ei gynnal o. I ddechrau, roedden nhw'n canu ei enw mewn cydymdeimlad, ond yn fuan wrth iddo fo fethu canu'r geiriau bron o gwbl, fe wnaethon nhw, yn un côr enfawr, ganu drosto fo. Roedd hi'n amlwg nad Tourettes yn unig oedd yn ei rwystro rhag canu erbyn y diwedd ond emosiwn yn ogystal. Roedd o dan deimlad o weld y fath gariad a chydymdeimlad yn cael eu harddangos tuag ato fo. Roedd y cyfan yn wefreiddiol.



Llun: Harald Krichel - Own work, CC BY 3.0

'Y dorf yn cynnal Capaldi' oedd y penawdau ar lawer o'r cyfryngau cymdeithasol eraill.

Dilynwch y ddolen hon: Someone I Loved, os ydych am farnu drosoch eich hun.

Efallai fy mod wedi mynd i anobeithio – wedi dechrau credu bod 'y dorf' wedi mynd yn beth hyll ac annymunol, bod cymdeithas yn ei hanfod wedi mynd yn hen beth anoddefgar a bygythiol.

Mae'n braf cael prawf o'r gwrthwyneb, a hynny ar raddfa mor fawr ac mewn lle mor gyhoeddus, a rheswm i obeithio a chredu eto fod cymdeithas yn ei hanfod yn garedig.

*Rocet Arwel Jones*

# Capel Seion, Croesoswallt

Prynhawn Sul, 16 Mehefin, fe ddaeth rhai o aelodau Seion a Horeb a'u ffrindiau i gyfarfod yn festri Seion am baned o de a chacen i roi diolch i Miss Neris Pritchard am ei gwaith anhygoel o fod yn organydd yn Seion ers pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed; mae hi bellach yn ei nawdegau. Fe gafodd ychydig o flynyddoedd gyda'i gwaith yn Wrecsam, a mynychu'r capel yn Wrecsam yn y cyfnod hwnnw.



Wedi cyrraedd y capel, ac yn ddiarwybod i Neris fod ei ffrindiau wedi ymgynnull, fe aeth, nid i'r festri ond i'r capel ac yn syth at yr organ, ac fe gawsom dros ugain munud o wrando arni'n chware emynau. Yn dilyn y nodyn cyntaf fe ddaeth pawb i mewn i'r capel ac eistedd i wrando; roedd emosiwn a dagrau yn llifo.

Er bod Neris wedi'i chael yn anodd iawn i gyraedd sedd yr organ heb unrhyw gymorth yn y gorffennol, y tro hwn fe aeth ac eistedd wrth yr organ bib heb unrhyw gymorth – anhygoel. Wedyn fe gafwyd te a chacen flasus iawn, a mynegwyd geiriau o ddiolch iddi gan aelodau a ffrindiau. Cofiwyd hefyd am eraill oedd wedi bod yn organyddion yn y gorffennol. Prynhawn cofiadwy.

*Dewi Lloyd*

Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen Foundation

**Pantyfedwen a'i Gwaddol Heddiw**

Cyfle i glywed am amrywiol grantiau Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen – i fyfyrwyr, eglwysi a chapeli, ac eisteddfodau.
Cyfraniadau gan ambell un sydd wedi derbyn grant yn ddiweddar a'r budd a gafwyd o'r gefnogaeth.

**Pabell Encore, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Dydd Iau, 10 Awst, 12.00 o'r gloch**

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Penuel – wyneb Duw

**Emyn 216 'Duw mawr y rhyfeddodau maith'**

**Darllen – Salm 17:1–8**

Arglwydd, hoffem pe medrem ddweud dy fod wedi ein chwilio 'heb gael drygioni' ynom, ein bod wedi cadw dy air, ac na phallodd ein cerddediad ar lwybrau dyrys bywyd. Am bob bai a throsedd, llithriad neu wrthryfel yn dy erbyn, gofynnwn eto am faddeuant, yn enw, a thrwy haeddiant ein prynwr Iesu Grist. Pwyswn ar dy ffyddlondeb rhyfeddol, dy waredigaeth, dy amddiffyn drosom. Diolchwn i ti fod dy dynerwch tuag atom fel dy ofal dros 'gannwyll dy lygad'. Deffra ninnau eto heddiw i weld dy *ddaioni*, i'w adnabod fel *dy* ddaioni di. Digona ni â'th wedd eto, ac eto. Tyrd, Ysbryd Glân, dangos i ni olud gras yn Iesu Grist. Amen.

**Emyn 862 'Dragwyddol Dduw, sy'n dad'**

**Darllen – Genesis 32:22–31 – Jacob yn Ymgodymu yn Penuel**

Drwy'r hanesion yr adroddwn amdanom ein hunain, dadlennwn pwy ydym, beth yw ein gwerthoedd, a beth sy'n bwysig i ni.

### 'Yma o hyd'

Pan ganwn, er enghraifft, ein bod ni 'Yma o hyd', cyhoeddwn ein bod yn ein huniaethu ein hunain â hanes maith ein pobl. Cyhoeddwn ein bod, ers dyddiau 'Magnus Maximus o Gymru', yma yn y tir. Cyhoeddwn ein bod wedi llwyddo i fwy na goroesi yn unig. Cyhoeddwn ein bod, gyda'n hanes unigryw, ein hiaith, a'n diwylliant wedi cyfrannu i stôr o gyfoeth diwylliannau'r byd.

### Hanesion 'creu'

Yn hanes y Patriarchiaid (Abraham, Isaac a Jacob) adroddir hanesion 'creu', storïau cychwynnol am genedl Israel. Adroddir yn ein darlleniad sut y newidiodd 'Jacob' fwy na'i enw ei hun wrth gael ei alw'n 'Israel'. Roedd rhywbeth yn y cyfarfyddiad grasol, heriol hwn a fyddai yn ei dro yn ei amlygu ei hun drachefn a thrachefn yn hanes disgynyddion Jacob, yn 'Neuddeg Llwyth Israel'.

### Dehongliad 'onomastig'

Hyd yn oed ar yr olwg gyntaf, gwelwn fod sawl darlleniad o'r hanes yn bosib a sawl dehongliad o arwyddocâd y cofnod yn ei gynnig ei hun i'r darllenydd.

Ar yr olwg symlaf ceir hanes 'onomastig' – hynny yw, hanes sy'n egluro enw lle. I 'blant Israel' o hyn allan byddai enwi 'Penuel' yn sbardun i'r cof. Medrent ddweud mewn cenedlaethau i ddod, 'Dyma'r man lle cyfarfu ein tad Israel â'r Arglwydd, a'i weld wyneb yn wyneb, heb ei ddifa.'

### Arferion bwyd

Cawn yn yr hanes eglurhad am un (ymhlith llawer yn ddiweddarach) arfer Iddewig. Oherwydd i Jacob/Israel ymgodymu â'r 'gŵr' dieithr cyhyd, fe'i clwyfwyd a 'datgysylltwyd clun Jacob' (adn. 25). Felly, esbonnir, 'dyna pam nad yw plant Israel yn bwyta giewyn gwasg y glun hyd heddiw, oherwydd trawo gwasg clun Jacob i fyw y giewyn' (adn. 32).

Ac eto, mae mwy i'r hanes, mae'n amlwg, na hyn.

### Pwysigrwydd Jacob

Er mor bwysig oedd Adda, neu Abraham i'r naratif Beiblaidd, y tu allan i lyfr Genesis, caiff Jacob ei enwi'n amlach na'r ddau enw arall gyda'i gilydd. Mae yma hanes hanfodol, creiddiol i'r modd yr oedd pobl Israel yn eu hadnabod eu hunain. A chan ei fod yn hanes mor greiddiol i'r Ysgrythurau Iddewig mae'n hanfodol ein bod ninnau, sy'n proffesu ffydd yn Iesu Grist, cyflawnwr yr Ysgrythurau (Luc 24:27,44), â rhyw fesur o ddealltwriaeth o arwyddocâd y digwyddiad.

### Enwau

Yn ôl yr hanes, roedd Jacob wedi croesi rhyd Jabboc, tua 20 milltir uwchlaw'r Môr Marw. Mae enw'r lleoliad, yn amlwg, yn debyg i enw Jacob ei hun. Y mae gan yr enw 'Jabboc' hefyd berthynas agos â'r gair am 'ymgodymu'.

Cyn y cyfarfyddiad â'r Arglwydd roedd Jacob eisoes yn ymgodymu â'i gydwybod, â'i orffennol a chyda chanlyniadau ei orffennol. Roedd Jacob, y twyllwr, y brathwr sodlau, yn dychwelyd i'w gartref. Ofnai gwrdd â'i frawd Esau: onid oedd wedi ei dwyllo o'i enedigaeth fraint? Roedd ar ffo rhag Laban, ei dad yng nghyfraith. Onid oedd Jacob wedi ei dwyllo yntau er mwyn sicrhau cyflog teg iddo'i hun am ei lafur?

Yno, ar ei ben ei hun, brwydrai Jacob â'i gydwybod. Brwydrai â'r Arglwydd oedd wedi ymddangos iddo cyn hyn, mewn breuddwyd, ym Methel (Genesis 28:17). Parhaodd y frwydr unig, ysbrydol, yr ymgodymu â'r Arglwydd drwy'r nos hyd at doriad gwawr. Yn awr, daeth wyneb yn wyneb â'r Arglwydd.

### Jacob a'i frwydr

Ar ryw olwg gwelwn yma gyfarfyddiad rhyfedd iawn. Daeth yr Arglwydd yn ei lawnder dwyfol, o'i wirfodd ei hun, i chwilio am droseddwr twyllodrus. *Ef a ganiataodd* i Jacob ymgodymu ag ef mewn ymdrech meddwl, mewn brwydr ysbrydol ddwys. Ef yn y frwydr a ddewisodd, er y medrai fod wedi difa Jacob ag un sill o'i wefusau, ganiatáu i Jacob afael ynddo, heb ollwng ei afael arno. Ef a fynnodd ofyn i Jacob wynebu pwy ydoedd. 'Jacob,' atebodd. Jacob y twyllwr. Jacob a adawodd helbul o'i ôl. Yn awr gorfodwyd Jacob i wynebu ei gymeriad a'i galon ei hun ym mhresenoldeb yr Arglwydd.

Ar yr un pryd, yn yr ornest ysbrydol hon, *gafaelodd Jacob* yn yr Arglwydd, ac ni fynnai ei ollwng hyd oni châi ei fendithio gan yr Arglwydd. Os gorfodwyd Jacob i wynebu ei gymeriad ei hun, mynnodd hefyd gael adnabod 'enw' cymeriad yr hwn yr oedd yn ymgodymu ag ef. Ac yn yr ymholiad 'dywed imi dy enw', daeth i adnabod yr Arglwydd sy'n bendithio, sy'n cynnig cyfle newydd ac enw newydd, a chyfeiriad newydd. Ni phallodd addewid yr Arglwydd i Abraham y byddai ei ddisgynyddion yn niferus ac y byddai holl dylwythau'r ddaear yn cael eu bendithio ganddo. Roedd gras Duw ar waith drwy Israel.

O ddarllen gweddill yr Ysgrythurau Iddewig gwelwn ym mhlant Israel yr un hanes yn cael ei adrodd a'i ailadrodd drosodd a thro. Weithiau roedd ei bobl yn milwrio ac yn ymladd i ollwng gafael ar yr Arglwydd. Dro arall roeddynt yn ymgodymu hyd nes y caent feddiannu'r fendith. Weithiau mewn galar, weithiau mewn anffyddlondeb, weithiau mewn bendith neilltuol, weithiau mewn ansicrwydd dybryd. Ni phallodd y bobl â galw na disgwyl am ddaioni yr Arglwydd, ac ni ollyngodd yr Arglwydd ei bobl chwaith.

Wrth gyflwyno'r efengyl i genedl-ddynion fel ni, mynnai'r Apostol fod breintiau gras wedi dod yn eiddo i ni drwy drugaredd yr Arglwydd hwn. (Rhufeiniaid 9:4–5)

Rhyfeddod gras yw y cawsom ni, genedl-ddynion, ein himpio i mewn i'r gwreiddyn yma.

### Gweddi

Arglwydd, mor rhyfedd yw dy ffyrdd – mor rasol, mor dyner, mor gadarn, mor llawn o fendith. Caniatâ i ninnau hefyd fedru cael gafael arnat ti, ti, yr hwn na chollodd ei afael arnom ni, drwy Iesu Grist, erioed. Amen

**Emyn 184 'Dyro i ni weld o'r newydd'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru